

Kirsty Williams AC/AM  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/KW/4329/18

Lynne Neagle AC,  
Cadeirydd, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

25 Ionawr 2019

Annwyl Lynne

### **Datblygu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru**

Diolch am y cyfle i roi diweddariad i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran ein rhaglen ddiwygio, ac yn benodol y datblygiadau o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru. Yn ystod y sesiwn, cytunais ddarparu'r wybodaeth ganlynol i aelodau'r Pwyllgor.

### **Sut olwg fydd ar y cwricwlwm drafft**

Amlinellais y byddwn yn sicrhau bod y cwricwlwm drafft ar gael ar-lein fel un 'ddogfen'. Rydym wedi datblygu llwyfan ar-lein gan gweithio ar y cyd ag arloeswyr, a bydd yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol yn ogystal â'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Rwy o'r farn bod fersiynau cyntaf cynnwys y we yn dod â'r cwricwlwm yn fyw, a byddwn yn hapus i drefnu sesiwn ar gyfer aelodau'r Pwyllgor i ddangos sut mae fersiynau'r we yn edrych ar hyn o bryd.

Os hoffai'r aelodau hefyd fynd trwy un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i weld y cwricwlwm yn ei gyd-destun, yna byddem yn hapus i gynnig cyfle i ymdrin â hynny.

### **Meithrin cysylltiadau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) mewn perthynas â'n rhaglen waith**

Mae ein Bwrdd Newid yn cynnig trosolwg strategol o'r rhaglen ddiwygio addysg gan roi sylw penodol i'r meysydd allweddol o ran diwygio: y cwricwlwm, dysgu proffesiynol ac atebolrwydd. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r haen ganol, gan gynnwys CCAC a CLILC. Nodir crynodeb o bresenoldebau ar gyfer y Bwrdd Newid isod.

### **2018**

|               |                                     |
|---------------|-------------------------------------|
| 27 Tachwedd   | CLILC a CCAC yn bresennol           |
| 18 Medi       | CLILC yn bresennol                  |
| 20 Gorffennaf | Cyfarfod wedi'i ganslo              |
| 16 Mai        | CLILC yn bresennol                  |
| 17 Ionawr     | Nid oedd CLILC na CCAC yn bresennol |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## 2017

|            |                           |
|------------|---------------------------|
| 27 Medi    | CLILC yn bresennol        |
| 21 Mehefin | CLILC yn bresennol        |
| 29 Mawrth  | CLILC a CCAC yn bresennol |
| 25 Ionawr  | CCAC yn bresennol         |

### **Meithrin cysylltiadau â busnesau**

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol (SSG) yn cael gwybod am ddatblygiadau, ac yn ran ohonynt, ar draws y rhaglen ddiwygio addysg gyfan. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod i gynrychioli ac i ymgysylltu â'u sectorau ac i gefnogi cyfathrebu negeseuon allweddol i'w rhwydweithiau unigol. Mae'r Grŵp hefyd yn darparu cyfle ffurfiol i aelodau roi adborth neu godi pryderon mewn perthynas â'u sectorau.

Er enghraifft, cryfhawyd aelodaeth yr is-grŵp SSG plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid o amrywiaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dilyn trafodaeth ynghylch cynrychiolaeth o bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws y cwricwlwm.

Mae aelodaeth yr SSG yn cynnwys cynrychiolydd o fusnes yng Nghymru drwy'r Ffederasiwn Busnesau Bach. Maent wedi chwarae rhan weithgar yn y grŵp ac er nad ydynt wedi bod yn ymgysylltu gymaint yn ddiweddar, mae hynny i'w ddisgwyl o ystyried natur y cyfnod presennol o waith. Rydym yn llwyr ddisgwyl meithrin cysylltiadau newydd dros dymor y gwanwyn ar gyfer y cyfnod adborth. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith ymgysylltu cychwynnol gyda Bwrdd Strategol Busnes Cymru yn uniongyrchol ar y cwricwlwm, a gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Yn dilyn hynny, bydd swyddogion yn mynd ati i weithredu mewn modd mwy manwl. Mae gennym hefyd gynrychiolaeth o'r sector busnes ar y Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) sydd o dan gadeiryddiaeth yr Athro Graham Donaldson. Mae fy swyddogion yn adolygu aelodaeth y grwpiau hynny yn rheolaidd i geisio sicrhau sylw cynhwysfawr, ac maent yn agored i ystyried enwebiadau eraill.

Ym mis Chwefror byddaf yn mynd i ddigwyddiad lansio Sefydliad Materion Cymreig ar gyfer eu prosiect ymchwil ar brofiadau cymunedau addysg bellach, addysg uwch, busnes a sgiliau yng Nghymru a'r Alban wrth ddiwygio'r cwricwlwm. Edrychaf ymlaen at eu canfyddiadau ar ffyrdd ymarferol i sicrhau bod diwygio'r cwricwlwm yn cael ei integreiddio â'r pedair cymuned, a'i gefnogi gan y pedair cymuned.

### **Cyfle i aelodau'r Pwyllgor ymgysylltu ag ysgolion arloesi**

Yr haf diwethaf, estynnais wahoddiad i aelodau ymgysylltu â rhai o'n hysgolion arloesi i weld y gwaith da y maent yn ei wneud. Yr wyf yn deall y cafwyd rhai anawsterau wrth geisio pennu dyddiadau cyfleus ar gyfer aelodau ac ysgolion, ond gobeithiaf i'r ymweliadau a gynhaliwyd fod o ddefnydd. Hoffwn estyn gwahoddiad o'r newydd i aelodau nad ydynt wedi cynnal ymweliadau, gan gynnwys aelodau newydd i'r Pwyllgor, na fyddant wedi derbyn y gwahoddiad gwreiddiol. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â swyddfeydd eich aelodau cyn bo hir, a hoffwn eu hannog i fanteisio ar y cyfle i weld y gwaith sy'n cael ei wneud.

Gobeithiaf fod y ddiweddariad hwn, a'r sesiwn a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, wedi bod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at y gwaith ymgysylltu sydd am barhau rhyngom wrth inni ddatblygu ein rhaglen o ddiwygiadau.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**  
Y Gweinidog Addysg